

rhaid chwilio am bynciau a golygfeydd newydd o dro i dro.

Roedd gan E. R. Gyde siop a stiwdio yn Heol y Wig, Aberystwyth. Arbenigai ef mewn tynnu lluniau grwpiau o ymwelwyr mewn cychod pleser neu siarabangs. Yna byddai'n eu printio ar ffurf cerdyn post a'u gwerthu iddynt o'i siop. Roedd hyn yn arferiad digon cyffredin mewn canolfannau gwyliau. Adroddodd Mr Glyn Pickford, un arall o ffotograffwyr Aberystwyth, y stori hon i mi am un o'r cardiau post a gynhyrchodd. Un prynhawn Sul ym mis Awst 1933 aeth am dro i Ben Dinas, a'i gamera gydag ef wrth gwrs. Sylwodd fod cwmwl o fwg uwchben tref Aberystwyth ac o graffu'n fanylach gwelodd fod Neuadd y Coleg ar dân. Tynnodd luniau a rhuthrodd 'nôl i 'stafell dywyll ei dad er mwyn eu datblygu a'u printio. Yna aeth ei dad, yng nghwmni cyfaill, â hwy yn syth i swyddfa bapur newydd ym Manceinion. Ymddangosodd y lluniau hyn ar dudalennau blaen y *Daily Mirror* a'r *Daily Sketch*. Arhosodd Glyn Pickford gartref er mwyn argraffu mil o'r lluniau ar ffurf cerdyn post, a'u gwerthu o'i siop am chwe cheiniog yr un.

Cafodd y cardiau dwyieithog cyntaf eu cyhoeddi gan y Brodyr Thomas yn Lerpwl fel rhan o'u cyfres 'Everton'. Yn dynn wrth eu sodlau roedd y *Western Mail* gyda'u cyfres 'Welsh Songs'. 'Llythyr Gerdyn' oedd eu cyfieithiad hwy o 'Postcard'.

Camgymeriad fyddai credu mai dim ond cardiau post topograffig a gynhyrchwyd yng Nghymru. Hyd yn oed heddiw mae cardiau o wragedd mewn 'gwisg Gymreig' yn gyffredin iawn. Roedd cardiau'n darlunio David Lloyd George yn boblogaidd iawn ar un cyfnod. Ceir nifer o gardiau doniol ar bwnc Yswiriant Cenedlaethol yn ogystal â chardiau yn cofnodi ei ymweliadau cyson â threfi a phentrefi Cymru. Gwerthai 'Maglona House' ym Machynlleth chwe gwahanol lun lliw o Lloyd George. Yn ystod y Rhyfel Mawr gwerthwyd lluniau ohono er budd Cronfa Genedlaethol Milwyr Cymru.

Heddiw 'rydym yn gyfarwydd â gweld lluniau o ddigwyddiadau pwysig mewn papurau newydd, ond cyn y Rhyfel Mawr roedd cardiau post hefyd yn ymorol am y farchnad hon. Er bod ambell lun yn ymddangos mewn papurau newydd roedd ansawdd y lluniau a ymddangosai ar gardiau post yn well. Yn dilyn tanchwa ym mhwl yr 'Universal' yn Senghennydd yn 1913, pryd y lladdwyd 439 o ddynion, aeth ffotograffydd o Glasgow o'r enw Benson, a arbenigai mewn tynnu lluniau trychinebau yno. Cyhoeddodd gyfres o 25 o gardiau yn darlunio'r golygfeydd (Parhad ar dudalen 16)



Lawnsio Bad Achub Aberystwyth yn 1910.



Tanchwa Senghennydd yn 1913. Un o gardiau Benson o Glasgote yw hwn.



Un o gardiau'r London and North Western Railways.